Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2025 Rhif 709 (Cy. 122)

# CYNRYCHIOLAETH Y BOBL

# SENEDD CYMRU

## Rheoliadau Etholaethau Senedd Cymru 2025

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Cyhoeddwyd penderfyniadau terfynol Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ("y Comisiwn") mewn cysylltiad â threfniadau etholiadol ar gyfer etholaethau'r Senedd ar 11 Mawrth 2025. Mae'r rheoliadau hyn yn rhoi effaith i'r penderfyniadau hynny, yn unol â phwerau Gweinidogion Cymru a nodir ym mharagraff 9(1) o Atodlen 2 i Ddeddf 2024.

Mae adroddiad y Comisiwn yn pennu'r 16 o etholaethau'r Senedd sy'n cynnwys parau penodol o etholaethau seneddol y DU, yn unol â dyletswyddau'r Comisiwn o dan baragraffau 2 ac 8 o Atodlen 2 i Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 ("Deddf 2024").

Gosododd Gweinidogion Cymru adroddiad y Comisiwn gerbron y Senedd, yn unol â pharagraff 8(5) o Atodlen 2 i Ddeddf 2024 ar 11 Mawrth 2025.

Ni fydd rheoliadau a wneir yn unol â phwerau Gweinidogion Cymru fel y nodir ym mharagraff 9(1) o Atodlen 2 i Ddeddf 2024 yn effeithio ar ddychwelyd Aelod i'r Senedd hyd nes y diddymir y Senedd mewn cysylltiad â'r etholiad cyffredinol cyntaf i gael ei gynnal ar ôl 6 Ebrill 2026 yn rhinwedd paragraff 9(8) o Atodlen 2 i Ddeddf 2024.

Mae paragraff 9(7) o Atodlen 2 i Ddeddf 2024 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Rheoliadau hyn gael eu gosod gerbron y Senedd cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r Rheoliadau gael eu gwneud.

Mae rheoliad 1 yn nodi enw a dyddiad dod i rym y Rheoliadau hyn. Mae'r darpariaethau cychwyn yn rhoi effaith i ofynion paragraff 9(8) o Atodlen 2 i Ddeddf 2024.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Mae rheoliad 2 yn cynnwys darpariaethau dehongli ar gyfer y Rheoliadau hyn.

Mae rheoliad 3 yn dirymu dau Orchymyn: Gorchymyn Etholaethau Seneddol a Rhanbarthau Etholiadol y Cynulliad (Cymru) 2006 (O.S. 2006/1041) a Gorchymyn Etholaethau Seneddol a Rhanbarthau Etholiadol y Cynulliad (Cymru) (Diwygio) 2011 (O.S. 2011/2987). Mae'r dirymiadau hyn yn cael yr effaith o ddiddymu etholaethau blaenorol y Senedd.

Mae rheoliad 4 yn nodi ac yn disgrifio etholaethau'r Senedd y mae Cymru bellach wedi ei rhannu ynddynt.

Mae rheoliad 5 yn ei gwneud yn ofynnol i bob swyddog cofrestru etholiadol aildrefnu neu addasu'r gofrestr etholwyr fel sy'n angenrheidiol i roi effaith i'r Rheoliadau hyn.

Mae'r Atodlen yn cynnwys enwau, dynodiadau a chyfansoddiad etholaethau'r Senedd.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2025 Rhif 709 (Cy. 122)

# CYNRYCHIOLAETH Y BOBL

# SENEDD CYMRU

## Rheoliadau Etholaethau Senedd Cymru 2025

*Gwnaed* *16 Mehefin 2025*

*Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* *19 Mehefin 2025*

*Yn dod i rym* *18 Gorffennaf 2025*

Mae Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Cymru(**1**) ("y Comisiwn") wedi cynnal adolygiad o ffiniau etholaethau'r Senedd, o dan y darpariaethau ar gyfer etholaethau'r Senedd a nodir ym mharagraffau 1 i 5 o Atodlen 2 i Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024(**2**) ("Deddf 2024").

Mae'r Comisiwn wedi cyflwyno adroddiad terfynol dyddiedig 11 Mawrth 2025 i Weinidogion Cymru, o dan baragraffau 2(2) ac 8(1) o Atodlen 2 i Ddeddf 2024, sy'n cynnwys ei benderfyniadau ar gyfer enwi, cyfansoddiad a dynodiad etholaethau'r Senedd.

Mae Gweinidogion Cymru, ar ôl gosod yr adroddiad gerbron y Senedd ar 11 Mawrth 2025 fel sy'n ofynnol gan baragraff 8(5) o Atodlen 2 i Ddeddf 2024, yn

(**1**) Sefydlwyd y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru gan adran 53 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (p. 70) ac Atodlen 8 iddi. Diddymwyd adran 53 ac Atodlen 8 gan adran 73(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (dccc 4) ac Atodlen 2 iddi, a ailenwyd yn Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 ("Deddf 2013") gan Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 (dsc 4) ("Deddf 2024") (gweler adran 11(1)). Newidiodd Deddf 2013 enw Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru. Mae Deddf 2024 yn newid enw Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (gweler adran 12).

(**2**) 2024 (dsc 4)

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

gwneud y Rheoliadau hyn i roi effaith i benderfyniadau'r Comisiwn yn unol â'r pwerau a roddir iddynt gan baragraff 9(1), (5) a (6) o Atodlen 2 i Ddeddf 2024.

### Enwi a dod i rym

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Etholaethau Senedd Cymru 2025.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 18 Gorffennaf 2025.

(3) Er bod y Rheoliadau hyn yn dod i rym o dan baragraff 1(2), nid ydynt yn cael effaith mewn perthynas ag etholiad cyffredinol y cynhelir y pôl ar ei gyfer ar neu cyn 6 Ebrill 2026.

(4) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "etholiad cyffredinol" yw etholiad cyffredinol cyffredin, neu etholiad cyffredinol eithriadol, a gynhelir o dan Ran 1 o Ddeddf 2006.

### Dehongli

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "Deddf 2006" ("*the 2006 Act*") yw Deddf Llywodraeth Cymru 2006(**1**);

ystyr "etholaethau'r Senedd" ("*Senedd constituencies*") yw'r etholaethau a ddiffinnir yn y tabl yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn, sy'n dychwelyd Aelod o'r Senedd fel y pennir yn Rhan 1 o Ddeddf 2006;

mae i "Senedd" yr un ystyr â "Senedd" yn adran 1(1) o Ddeddf 2006.

### Dirymu

**3.** Mae'r Gorchmynion a ganlyn wedi eu dirymu—

(a) Gorchymyn Etholaethau Seneddol a Rhanbarthau Etholiadol y Cynulliad (Cymru) 2006(**2**), a

(b) Gorchymyn Etholaethau Seneddol a Rhanbarthau Etholiadol y Cynulliad (Cymru) (Diwygio) 2011(**3**).

---

(**1**) 2006 p. 32. Gwneir diwygiadau perthnasol gan adrannau 2(1) a 25(2)(a) (gydag adran 24(1)) o Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 (dsc 4).

(**2**) O.S. 2006/1041. Diwygiwyd y Gorchymyn hwn gan Orchymyn Etholaethau Seneddol a Rhanbarthau Etholiadol y Cynulliad (Cymru) (Diwygio) 2008 (O.S. 2008/1791) (a ddirymwyd gan Orchymyn Etholaethau Seneddol 2023 (O.S. 2023/1230)). Fe'i diwygiwyd hefyd gan Orchymyn Etholaethau Seneddol a Rhanbarthau Etholiadol y Cynulliad (Cymru) (Diwygio) 2011 (O.S. 2011/2987) a Gorchymyn Etholaethau Seneddol 2023 (O.S. 2023/1230).

(**3**) O.S. 2011/2987.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Etholaethau'r Senedd**

**4.**—(1) Mae Cymru wedi ei rhannu yn etholaethau'r Senedd—

(a) a enwir yng ngholofn 1 o'r tabl yn yr Atodlen,

(b) a ddynodir yn etholaethau sirol neu'n etholaethau bwrdeistrefol yn y golofn honno, ac

(c) sy'n cynnwys etholaethau seneddol y DU a nodir yng ngholofnau 2 a 3 o'r tabl hwnnw, gyferbyn ag enw'r etholaeth yng ngholofn 1(**1**).

(2) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "etholaeth seneddol y DU" ("*UK parliamentary constituency*") yw etholaeth seneddol y Deyrnas Unedig a grëwyd gan Orchymyn Etholaethau Seneddol 2023(**2**) ("Gorchymyn 2023"), sy'n dychwelyd aelod o Senedd y Deyrnas Unedig, gan ddiystyru effaith weithredol unrhyw ddiwygiadau neu addasiadau i Orchymyn 2023 ar ôl y dyddiad y gwneir y Rheoliadau hyn.

**Cofrestrau Etholiadol**

**5.** Rhaid i bob swyddog cofrestru etholiadol(**3**) aildrefnu neu addasu'r gofrestr etholwyr llywodraeth leol a gynhelir o dan adran 9(1)(b)(**4**) a (5A)(**5**) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983(**6**), fel sy'n ofynnol i roi effaith i'r Rheoliadau hyn.

*Jayne Bryant*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, un o Weinidogion Cymru
16 Mehefin 2025

(**1**) Mae mapiau o'r etholaethau unigol y penderfynodd y Comisiwn y dylid rhannu Cymru ynddynt ar gael yn Adolygiad 2026: Penderfyniadau Terfynol | CDFfC (https://www.cdffc.llyw.cymru/arolygon/03-25/2026-review-final-decisions)

(**2**) O.S. 2023/1230.

(**3**) Fel y'i penodir yn unol ag adran 8(2A) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (p. 2). Diwygiwyd adran 8 gan adran 66(6) ac (8) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (p. 19) a pharagraff 68(1) o Atodlen 16 iddi i fewnosod darpariaethau ynghylch penodi swyddogion cofrestru etholiadol yng Nghymru.

(**4**) Diwygiwyd y ddarpariaeth hon gan adran 8(a) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000 (p. 2) a pharagraff 3 o Atodlen 1 iddi.

(**5**) Mewnosodwyd adran 9(5A) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 gan adran 23 o Ddeddf y Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (dccc 1) ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i swyddogion cofrestru etholiadol gynnal cofnodion penodol o etholwyr sy'n 16 oed neu'n 17 oed.

(**6**) 1983 p. 2.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# YR ATODLEN Rheoliad 4

## Enw, dynodiad a chyfansoddiad etholaethau'r Senedd

**Tabl 1**

| *Enw etholaethau'r Senedd* | *Etholaethau seneddol y DU* | |
|---|---|---|
| | *Etholaeth 1* | *Etholaeth 2* |
| Bangor Conwy Môn *Etholaeth Sirol* | Bangor Aberconwy | Ynys Môn |
| Clwyd *Etholaeth Sirol* | Dwyrain Clwyd | Gogledd Clwyd |
| Fflint Wrecsam *Etholaeth Sirol* | Alun a Glannau Dyfrdwy | Wrecsam |
| Gwynedd Maldwyn *Etholaeth Sirol* | Dwyfor Meirionnydd | Maldwyn a Glyndŵr |
| Ceredigion Penfro *Etholaeth Sirol* | Ceredigion Preseli | Canol a De Sir Benfro |
| Sir Gaerfyrddin *Etholaeth Sirol* | Caerfyrddin | Llanelli |
| Gŵyr Abertawe *Etholaeth Sirol* | Gŵyr | Gorllewin Abertawe |
| Brycheiniog Tawe Nedd *Etholaeth Sirol* | Aberhonddu, Maesyfed a Chwm Tawe | Castell-nedd a Dwyrain Abertawe |
| Afan Ogwr Rhondda *Etholaeth Sirol* | Aberafan Maesteg | Rhondda ac Ogwr |
| Pontypridd Cynon Merthyr *Etholaeth Sirol* | Merthyr Tudful ac Aberdâr | Pontypridd |
| Blaenau Gwent Caerffili Rhymni *Etholaeth Sirol* | Blaenau Gwent a Rhymni | Caerffili |
| Syr Fynwy Torfaen *Etholaeth Sirol* | Sir Fynwy | Torfaen |

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

| | | |
|---|---|---|
| Casnewydd Islwyn *Etholaeth Sirol* | Dwyrain Casnewydd | Gorllewin Casnewydd ac Islwyn |
| Caerdydd Penarth *Etholaeth Sirol* | Gorllewin Caerdydd | De Caerdydd a Phenarth |
| Caerdydd Ffynnon Taf *Etholaeth Sirol* | Gogledd Caerdydd | Dwyrain Caerdydd |
| Pen-y-bont Bro Morgannwg *Etholaeth Sirol* | Pen-y-bont ar Ogwr | Bro Morgannwg |